**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

19 Gorffennaf 2018

Annwyl Brif Weinidog,

**Cais am ddiweddariad ar gynnydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad ar 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?'**

Ym mis Ionawr, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit. Er ein bod ni fel Pwyllgor yn gobeithio y bydd trafodaethau Erthygl 50 yn terfynu'n llwyddiannus i bob parti, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod rhaid i Lywodraeth Cymru, o ran ei gwaith cynllunio senarios, wynebu'r posibilrwydd na fydd bargen ar waith ar 29 Mawrth 2019.

Er bod negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn parhau, rhaid cydnabod y ffaith bod ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniad hefyd yn parhau. O'r herwydd, dyma ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ynghylch saith argymhelliad y Pwyllgor. Er hwylustod, mae'r argymhellion hyn ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Wrth baratoi eich ymateb, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi gynnwys:

- manylion y camau penodol a gymerwyd er mwyn cyflawni argymhellion y Pwyllgor;
- syniad o unrhyw adnoddau ychwanegol (boed hynny yn adnoddau ariannol neu'n adnoddau staffio ychwanegol) a ddarparwyd i gyflawni argymhellion y Pwyllgor; a

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565


**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

- syniad o'r amserlenni ar gyfer cwblhau unrhyw waith parodrwydd sy'n mynd rhagddo.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch hysbysu y bydd y Pwyllgor hefyd yn ymgymryd â gwaith casglu tystiolaeth pellach gyda rhanddeiliaid yn nhymor yr hydref ar barodrwydd Cymru ar gyfer Brexit. Bydd manylion pellach ar gael ar wefan y Pwyllgor maes o law.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r llythyr hwn erbyn 3 Medi 2018.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.